

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a rheoli gweithredoedd electrobysgota i fodloni'r amcanion pysgota wedi'u rhaglennu yn ddiogel ac yn effeithiol. Mae'n cynnwys gallu sefydlu a rheoli pob agwedd ar y gweithgarwch electrobysgota.

Mae'r safon hon yn gofyn bod technegau electrobysgota yn cael eu lleoli, gan gyfrif am y diben, yr amcanion pysgota, yr amodau amgylcheddol, effeithiolrwydd y cyfarpar a dilyn manyleb y gwneuthurwr. Mae'r safon hon hefyd yn gofyn bod cyflwr y pysgod yn cael ei gynnal yn ystod dal, storio, prosesu, casglu data a rhyddhau.

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn cadarnhau bod gwaith yn cael ei gwblhau'n ddiogel, yn unol â gofynion cyfreithiol a gofynion iechyd a diogelwch perthnasol a gofynion trwyddedu perthnasol, a'ch bod yn sicrhau bod eich gwaith yn cynnal bioddiogelwch ac yn lleihau tarfu amgylcheddol bob amser.

Bydd y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n rheoli cymhwyso'r safon hon yn amrywio yn ôl lleoliad y bysgodfa – yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau bod yr holl weithgareddau sy'n ofynnol i gynllunio a rheoli gweithredoedd electrobysgota i fodloni amcanion pysgota wedi'u rhaglennu, yn cael eu cyflawni'n ddiogel yn unol â gofynion iechyd a diogelwch perthnasol
2. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gweithgarwch electrobysgota arfaethedig
3. dewis a gweithredu'r dulliau gweithio priodol yn unol â'r risgiau a aseswyd
4. cynllunio gweithredoedd electrobysgota i fodloni'r amcanion pysgota gofynnol sydd wedi'u rhaglennu
5. cael y trwydded(au)/hawlen(ni) angenrheidiol ar gyfer gweithredoedd electrobysgota oddi wrth yr awdurdodau perthnasol
6. rheoli'r adnoddau sy'n ofynnol i gyflawni'r amcanion electrobysgota wedi'u rhaglennu, gan gyfrif am nodweddion y corff dŵr, rhywogaethau'r pysgod a'r amodau amgylcheddol
7. cadarnhau bod y bobl sy'n ymwneud â gweithredoedd electrobysgota yn defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) priodol
8. cadarnhau bod y bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau electrobysgota wedi'u hyfforddi'n llawn, yn ôl gofynion perthnasol eich sefydliad
9. cadarnhau bod cyfarpar electrobysgota wedi'i baratoi a'i gynnal a chadw i'r safon berthnasol ar gyfer electrobysgota
10. cadarnhau bod cyfleusterau cadw pysgod mewn cyflwr addas i dderbyn, prosesu a chynnal iechyd a lles pysgod
11. rheoli gweithredoedd electrobysgota i fodloni'r amcanion pysgota wedi'u rhaglennu o fewn yr ardal bysgota, a gallu ymateb i amrywiadau
12. cadarnhau bod y tîm electrobysgota yn defnyddio anaestheteg yn gywir yn ystod gweithredoedd electrobysgota
13. addasu gweithredoedd electrobysgota i gyfrif am newidiadau yn yr amodau amgylcheddol
14. cadarnhau bod pysgod wedi'u dal yn cael eu prosesu'n gywir a goruchwyllo cyflwr, iechyd a lles pysgod wedi'u dal trwy gydol y gweithgareddau electrobysgota
15. cynnal gwybodaeth gywir er mwyn cadw cofnodion cyfredol o weithredoedd electrobysgota
16. cyfleu gofynion gweithredol electrobysgota i bawb sy'n ymwneud â'r gweithgaredd

- 
17. os bydd digwyddiad, rhoi gweithdrefnau brys ar waith os bydd angen
  18. cadarnhau bod yr holl waith yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion  
bioddiogelwch, a bod pob gwastraff a deunyddiau dros ben yn cael eu gwaredu'n  
gywir

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth a chodau ymarfer amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol sy'n gysylltiedig â gweithredoedd electrobysgota
2. sut i asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r safle a'r gweithredoedd electrobysgota
3. pwysigrwydd dewis y dulliau gweithio priodol yn unol â'r risgiau a aseswyd
4. pwysigrwydd defnyddio'r cyfarpar diogelu personol (PPE) cywir
5. sut, pryd ac oddi wrth bwy y mae angen cael y trwydded(au)/hawlen(ni) angenrheidiol ar gyfer gweithredoedd electrobysgota
6. egwyddorion electrobysgota a'i gyfyngiadau, ei fanteision a'i anfanteision
7. sut i gynllunio a rheoli gweithredoedd electrobysgota i fodloni amcanion pysgota wedi'u rhaglennu, gan gynnwys dewis ardal bysgota briodol
8. y mathau o arolwg a ddefnyddir mewn electrobysgota
9. sut gall gofynion adnoddau amrywio yn ôl y math o arolwg a'r lleoliad
10. sut gall morffoleg, tymheredd dŵr, dargludedd dŵr a maint pysgod effeithio ar weithgareddau electrobysgota a'r canlyniadau a geir
11. y mathau o wallau ac amrywiadau amgylcheddol a all effeithio ar weithredoedd electrobysgota wedi'u rhaglennu
12. sut gall y defnydd cywir o gyfarpar electrobysgota leihau'r niwed posibl a achosir i bysgod
13. pryd i ddefnyddio cychod bŵm ac anodau llaw
14. sut mae rhywogaethau pysgod gwahanol yn adweithio yn ystod electrobysgota a sut i gynnal cyflwr, iechyd a lles pysgod sy'n cael eu dal yn ystod gweithgareddau electrobysgota
15. sut i addasu gweithredoedd electrobysgota i gyfrif am niferoedd mawr o bysgod, trosglwyddiadau pysgod a newidiadau mewn amodau dŵr
16. casglu data a gofynion cofnodi'r sefydliad
17. sut i adnabod arwyddion straen mewn pysgod
18. pa anaesteteg sy'n cael ei defnyddio yn ystod gweithgareddau electrobysgota a pham
19. sut i baratoi, defnyddio a gwaredu anaesteteg ar gyfer gweithredoedd electrobysgota
20. sut i sefydlu a chynnal bioddiogelwch yr ardal bysgota yn ystod gweithgareddau electrobysgota
21. pwysigrwydd cyfathrebu â'r tîm electrobysgota yn ystod y gweithredoedd

---

electrobysgota

---

## Geirfa

### **Anod**

Mae anod yn electrod y mae cerrynt confensiynol yn llifo drwyddo i ddyfais drydanol bolar.

### **Morffoleg**

Cangen o fioleg sy'n delio ag astudio ffurf a strwythur organebau a'u nodweddion strwythurol penodol.

---

<b>Datblygwyd gan</b>	Lantra
<b>Fersiwn rhif</b>	1
<b>Dyddiad cymeradwyo</b>	01 Ion 2018
<b>Dyddiad Adolygu Dangosol</b>	01 Chwef 2021
<b>Dilysrwydd</b>	Ar hyn o bryd
<b>Statws</b>	Gwreiddiol
<b>Sefydliad cychwynnol</b>	Lantra
<b>RCU gwreiddiol</b>	LANFiM12
<b>Galwedigaethau perthnasol</b>	Arolygydd, Tywysydd Pysgota, Prif Feili, Swyddog Datblygu Pysgodfeydd, Biolegydd Pysgodfeydd
<b>Cyfes/Set</b>	Rheoli Pysgodfeydd
<b>Geiriau Allweddol</b>	electrobysgota; pysgota; pysgod; cyfarpar

---